

# MAPIO CYMUNEDOL GWENFÔ



10/1/2016

## Adroddiad Ymgysylltu

Bu'r gweithgareddau mapio cymunedol yn mynd rhagddynt ym misoedd Medi a Hydref 2016. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys arolwg cymunedol a sesiynau galw i mewn yn y Sioe Pentref Gwenfo a Ysgol Gynradd Gwenfo. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi rhagor o fanylion y gweithgareddau ac yn crynhoi'r canfyddiadau.

Contents

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>2</b>
<b>2. Mapio'r gymuned yng Ngwefô.....</b>	<b>2</b>
<b>3. Ymgysylltu â'r Gymuned .....</b>	<b>3</b>
3.1 Hyrwyddo mapio cymunedol.....	3
3.2 Arolwg Cymunedol Gwefô .....	3
3.3 Sesiynau galw heibio .....	9
<b>4. Prif Ganfyddiadau .....</b>	<b>10</b>

# Mapio Cymunedol Gwenfô

## ADRODDIAD YMGYSYLLTU

### 1. Cyflwyniad

Caiff Project Mapio Cymunedol Gwenfô ei ariannu dan raglen LEADER Cyngor Bro Morgannwg, rhaglen â chyllid Ewropeaidd i gyflawni adfywio gwledig drwy ddatblygu syniadau arloesol all greu buddion cymdeithasol ac economaidd hirdymor i'r Fro wledig. Un o themâu'r rhaglen adfywio yw helpu cymunedau i ddatblygu drwy ymchwilio i ffyrdd newydd o ddatblygu gwasanaethau, cyfleusterau, gweithgareddau a rhwydweithiau. Nod Mapio Cymunedol yw dod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl i ddarganfod beth yw asedau (ffisegol a chymdeithasol) ac anghenion y gymuned.

Gwenfô oedd yr ail gymuned yn y Fro wledig i beilota'r mapio cymunedol, gan ddefnyddio'r Llawlyfr Mapio Cymunedol Drafft, a gafodd ei ddatblygu gan Dîm Cymunedau Gwledig Creadigol a'i beilota am y tro cyntaf yn Sain Tathan.

### 2. Mapio'r gymuned yng Ngwenfô

Roedd y dull a ddefnyddiwyd yng Ngwenfô ychydig yn wahanol i'r dull a ddefnyddiwyd yn Sain Tathan, ble rhoddwyd cefnogaeth fanwl er mwyn adeiladu darlun clir o anghenion y gymuned.

Yng Ngwenfô, roedd dealltwriaeth gliriach o'r gwasanaethau oedd ar gael. Roedd Gwefan Cymunedol Gwenfô, a oedd yn rhoi rhestr glir o bopeth oedd yn digwydd yn y gymuned leol - [www.wenvoe.org.uk](http://www.wenvoe.org.uk). Yn yr un modd, mae'r cylchgrawn misol 'Wenvoe What's On' yn rhoi gwybod am yr hyn sy'n digwydd ac am brif gysylltiadau yn y pentref. Er bod rhaid talu ychydig i'w gyhoeddi, mae dros hanner yr aelwydydd yn yr ardal wedi cofrestru ar ei gyfer. Yn ogystal, mae tudalen Facebook Gwenfô.

Bu'r Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn gweithio'n agos gyda Chyngor Cymuned Gwenfô ar y gweithgareddau mapio cymunedol. Nid ward cyfan Gwenfô oedd yr ardal darged ar gyfer y mapio cymunedol, ond yn hytrach roedd yn canolbwyntio ar ardal Cyngor Cymuned Gwenfô gan anwybyddu cymunedau Sant Nicolas a Thresimwn.

Bu i ddyheadau'r Cyngor Cymuned am adeilad llyfrgell newydd lywio'r project mapio cymunedol. Yn dilyn ymgynghoriadau cymunedol y Cyngor Cymuned yn 2012, crëwyd rhestr o flaenoriaethau cymunedol gan gynnwys llyfrgell newydd.

Ers 2012, mae cymuned Gwenfô wedi newid gyda datblygiadau preswyl newydd ar Port Road ac yn hen stiwdio ITV, ger Croes Cwrlwys. Teimlwyd bod adborth gan y preswylwyr newydd hyn yn bwysig er mwyn deall beth oedd eu hanghenion o ran gwasanaeth.

Diben y gwaith mapio cymunedol hwn oedd adeiladu ar yr ymgynghoriad blaenorol ac i ategu at flaenoriaethau'r gymuned.

### 3. Ymgysylltu â'r Gymuned

O'i gymharu â'r ymgysylltu a ddigwyddodd yn Sain Tathan, nid oedd y gwaith ymgysylltu hwn mor ddwys. Er mwyn cael adborth diweddar gan y gymuned, cynhaliwyd y gweithgareddau mapio cymunedol canlynol:

- Arolwg Cymunedol Gwenfô
- Sesiynau Galw Heibio yn Sioe Bentref Gwenfô ac Ysgol Gynradd Gwenfô.

#### 3.1 Hyrwyddo mapio cymunedol

Anfonwyd taflen yn hysbysebu'r arolwg cymunedol a'r Digwyddiad Mapio Cymunedol i bob eiddo yn ardal Cyngor Cymuned Gwenfô'r wythnos yn dechrau 5 Medi 2016. Derbyniodd pob eiddo yn yr ardaloedd canlynol gopi:

- Gwenfô
- Brooklands Terrace
- Parc Preswyl Cambria
- Park St Lythans
- Twyn-yr-Odyn
- St Lythans
- Dyffryn

Hysbysebwyd y daflen ar dudalen Facebook Gwenfô. Roedd erthygl am y gwaith mapio cymunedol yn 'Wenvoe What's On' ac roedd erthygl yn y Gem ddydd Iau 22 Medi 2016 yn annog preswylwyr i gwblhau'r arolwg.

#### 3.2 Arolwg Cymunedol Gwenfô

Roedd yr arolwg ar agor am 4 wythnos o ddydd Llun 5 Medi i ddydd Llun 3 Hydref 2016. Anogwyd y cyhoedd i gwblhau'r arolwg ar-lein ac ar bapur; roedd copïau ar gael yn Siop y Pentref, y Ganolfan Gymunedol a'r Llyfrgell.

Cwblhawyd dros traean o'r arolygon yn ystod wythnos cyntaf yr arolwg. Cwblhawyd ychydig o arolygon ychwanegol ar-lein yn y Sioe Bentref. Cafodd yr arolwg ei gyfieithu i'r Gymraeg; fodd bynnag yn anffodus ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion yn Gymraeg.

#### *Crynodeb o'r ymatebion*

##### **Amdanoch Chi**

Cwblhawyd 91 o arolygon. Roedd dros 90% o'r ymatebwyr yn byw yng Ngwenfô, a dim ond 8 ymateb a ddaeth o'r tu allan i'r pentref.

Roedd ychydig dros 40% o ymatebwyr yn ddi-waith. Roedd 20% o'r gweddill yn gweithio o fewn 5 milltir o'u cartref ac 16% yn gweithio rhwng 6 neu 10 milltir i ffwrdd.

O ran proffil oedran yr ymatebwyr, roedd oddeutu 5% o dan 24 oed a 20% dros 70 oed. Roedd ychydig o dan traean rhwng 40 a 55 oed a thraean arall rhwng 56 – 70 oed.

### Ynglŷn â'r Gymdogaeth

Roedd bron 70% o ymatebwyr yn mwynhau byw yng Ngwenfô gyda dim ond un person nad oedd yn mwynhau byw yno ac un person ddim yn mwynhau i raddau helaeth. O ran y synnwyr o gymuned, roedd bron 65% o'r farn bod gan Gwenfô ymdeimlad cymunedol cryf. Dim ond 7% o'r farn nad oedd yn gryf neu ddim yn gryf o gwbl. Mae'n ymddangos bod y gymuned yn adnabod ei gilydd ac mae 60% o ymatebwyr yn adnabod dros 20 o gymdogion, dros 20% yn adnabod rhwng 11 a 20 o gymdogion a dim ond 5% yn adnabod rhwng 1 a 5 o gymdogion. Dim ond un ymatebwr oedd ddim yn adnabod unrhyw gymdogion.

O ran y pethau yr oedd pobl yn hoffi am y gymdogaeth, roedd y rhan fwyaf yn dweud bod Gwenfô yn gyfeillgar gydag ysbryd cymunedol cryf. Nododd traean eu bod yn hoffi'r lleoliad gwledig, yn ogystal â phellter at gyfleusterau a gwasanaethau yn y pentref a'i hagosatrwydd at Gaerdydd. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r ymatebion i'r cwestiwn agored hwn:

Beth mae pobl yn hoffi?	Nifer yr ymatebwyr
Ysbryd cymunedol / lle cyfeillgar	41
Lleoliad gwledig / cefn gwlad / distawrwydd	29
Pellter o Gaerdydd / yr holl gyfleusterau	13
Llawer o bethau i wneud / ystod o wasanaethau	11
Teimlo'n ddiogel	8
Taclus a thwt	5
Parciau, gerddi a manau agored	3
Mynediad rhwydd wrth deithio	3

Roedd dros 90% o ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel yng Ngwenfô gyda dim ond un person yn dweud nad oedd yn teimlo'n ddiogel o gwbl. Bu i ychydig o ymatebwyr adnabod materion penodol o ran diogelwch gan gynnwys goleuadau gwael, llwybrau cerdded anwastad, llwybrau cerdded llithrig, diffyg manau'n addas i gŵn, gwell groesfannau ffordd ar y briffordd nad ydynt yn addas i bobl anabl, gwrthdaro rhwng cerddwyr, beicwyr a marchogwyr a lefelau traffig uchel ar Port Road.

### Gwasanaethau yng Ngwenfô

Roedd barn ymatebwyr ar wasanaethau / cyfleusterau'n amrywio'n sylweddol. Bu i'r rhan fwyaf nodi bod y gwasanaethau / cyfleusterau canlynol yn ardderchog ac yn dda iawn (gan gynnwys manau chwarae a pharciau, llwybrau cerdded a manau agored / cefn gwlad, canolfannau cymunedol a chlybiau lleol) a bod y rhai canlynol yn foddhaol (siopau, tafarndai, trafnidiaeth gyhoeddus, llyfrgell a darpariaeth chwaraeon). Nododd dros 25% bod y ddarpariaeth chwarae, cyfleoedd chwarae, trafnidiaeth gyhoeddus, tafarndai a siopau bwydydd cyflym yn wael neu'n wael iawn.

Roedd sylwadau cyffredinol am ddefnydd gwasanaethau a chyfleusterau'n cynnwys gwella'r llwybrau cerdded o amgylch Twyn yr Odyn, gwella'r cyfleusterau torri gwair yn y parc, diffyg cyfleoedd hyfforddiant, eisiau cyfrifiaduron yn ôl yn y llyfrgell ac roedd un sylwad yn nodi gan fod y gampfa agosaf

yng Nghaerdydd, dylid rhoi mwy o gefnogaeth i grwpiau cerdded a beicio yng Ngwefô. Nododd un ymatebwr ei fod yn bentref ac y dylai barhau'n bentref, felly doedd dim disgwyl gweld yr holl gyfleusterau hyn yn y pentref. Nid yw'r gymuned eisiau bod yn estyniad o Gaerdydd.

Mae'n ddiddorol nodi er bod llawer o ymatebwyr wedi trafod yr ystod o wasanaethau / cyfleusterau ar gael, nid oedd llawer o ymatebwyr yn eu defnyddio. Roedd rhai cyfleusterau'n cael eu defnyddio'n fwy rheolaidd, gyda dros 50% yn defnyddio manau chwarae a pharciau, llwybrau cerdded a manau agored / cefn gwlad, canolfannau cymunedol, siopau a siopau bwydydd cyflym yn fwy nac unwaith y mis. Yr ysgol a'r cyfleoedd hyfforddiant oedd yn cael eu defnyddio lleiaf gan y gymuned, fodd bynnag gall hyn fod oherwydd demograffig yr ymatebwyr. Nid oedd 40% yn defnyddio clybiau lleol; roedd bron 40% o ymatebwyr heb ddefnyddio'r cyfleusterau chwarae a thraean heb ddefnyddio'r llyfrgell yng Ngwefô. O ran aelodaeth llyfrgell, roedd 47% yn aelodau o'r llyfrgell.

O ran pam nad oedd y gwasanaethau a'r cyfleusterau'n cael eu defnyddio, nododd ymatebwyr eu bod yn credu y dylid hysbysebu digwyddiadau yn well megis prynu tocynnau ymlaen llaw, gwelliannau i'r dafarn gan gynnwys cynnig bwyd a defnyddio'r ystafell ddigwyddiadau i fyny'r grisiau ar gyfer digwyddiadau a gwella'r manau chwarae. Gwnaeth nifer o ymatebwyr nodi eu bod yn gweithio llawn amser neu i ffwrdd o'r ardal ac nad oes ganddynt amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

O ran y gwasanaethau y tu allan i'r pentref, nododd pobl y byddent yn hoffi gweld y canlynol ar gael yn lleol:

<b>Gwasanaethau dymunol y mae'n rhaid mynd y tu allan i'r pentref i gael mynediad atynt ar hyn o bryd</b>	<b>Nifer yr ymatebwyr</b>
Siop goffi / deli	11
Meddyg / Fferyllfa	15
Trafnidiaeth gyhoeddus gwell (gan gynnwys safle bws yn y pentref)	7
Siop bwyd cyflym	5
Dosbarthiadau ymarfer corff / campfa e.e. pilates	4
Campfa awyr agored	3
Siop harddwch / siop torri gwallt	3
Tafarn well gyda bwyd da	2
Maes parcio cyhoeddus a thoiledau	1
Cynnal llwybrau cerdded / camfeydd yn well	1
Llyfrgell nad yw'n gorfod dibynnu ar wirfoddolwyr	1

## Mapio Cymunedol Gwefô

Defnydd gwell o'r ganolfan gymunedol, e.e. chwaraeon i blant dan do	1
Llyfrgell	1
Band eang gwell	1

Ymhlith y syniadau eraill roedd Clwb Beicio Wenvoe Wheelers yn cynnal sesiynau i blant mewn manau gwyrdd lleol.

### **Technoleg Ddigidol**

O ran technoleg ddigidol, roedd gan dros 97% o ymatebwyr fynediad at gyfrifiadur / llechen gartref, mynediad i'r rhyngrwyd, cyfeiriad e-bost a ffôn symudol, dros 80% yn defnyddio bancio ar-lein a siopa ar-lein ac roedd gan 64% fynediad at gyfryngau cymdeithasol. Dim ond 3% oedd heb yr un o'r uchod.

Cafodd y cwestiwn yn ymwneud â rhwystrau o ran cael mynediad at dechnoleg ddigidol raddfa ymateb wael gyda dim ond 27% o ymatebwyr yn ateb y cwestiwn. O'r ymatebwyr hynny, bu i 80% nodi cysylltiad gwael â'r rhyngrwyd fel rheswm, a nododd 16% mai hyder o ran defnyddio a sefydlu cyfrifiaduron a llechen oedd y rheswm. O'r 90% o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn ynghylch a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn mynychu sesiwn Galw Heibio Digidol, mynegodd 25% ddiddordeb.

### **Gwelliannau yng Ngwefô**

Awgrymwyd y canlynol fel gwelliannau i'r gymuned:

<b>Math o welliant</b>	<b>Syniad am welliant</b>	<b>Nifer yr ymatebwyr</b>
	Atal traffig rhag torri drwy'r pentref	5
	Meddygon	4
	Caffi (yn benodol yn y cyfnod rhwng grŵp chwarae'n cau a meithrin yn dechrau)	4
	Dim parcio ar y palmentydd / lleiniau ymyl gwyrdd	4
	Gwella llwybrau cerdded cyhoeddus e.e. Gwaredu chwyn, gwneud camfeydd yn addas i gŵn	4
	Band eang gwell	4
	Mwy o weithgareddau i'r gymuned gan gynnwys oedolion ifanc a gweithgareddau pontio'r cenedlaethau	4

	Gwelliannau i balmentydd e.e. Port Road i Lanfair	2
	Yn erbyn Gwenfô'n tyfu – dim mwy o dai newydd	2
	Gweithiwr datblygu ieuenctid i weithio gyda phobl ifanc	2
	Mwy o finiau sbwriel / casgliadau sbwriel gwell	2
	Band eang gwell	2
	Gwasanaeth bws gwell	2
	Gwaredu coed sydd wedi'u torri a phlannu mwy o goed enghreifftiol	1
	Tafarn gwell gyda bwyd gwell	1
	Creu gweledigaeth i Wenfô	1
	Torri'r gwair yn fwy rheolaidd	1
	Llwybrau beicio wedi'u dylunio'n well	1
	Mannau croesi gwell i alluogi pobl hŵn / anabl i ddal bws	1
	Torri'r gwair yn fwy rheolaidd	1
	Goleuadau stryd annigonol	1

### Rhestr Ddymuniadau Gwenfô

Roedd y Cyngor Cymuned wedi adnabod 'Rhestr Ddymuniadau' projectau o ymarferion ymgynghori cymunedol blaenorol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa flaenoriaeth y byddant yn ei rhoi i bob project.

Nodwyd y projectau canlynol yn rhai â **blaenoriaeth uchaf** gyda dros 40% o ymatebwyr yn nodi mai dyma oedd y blaenoriaeth uchaf neu flaenoriaeth uchel:

- Disodli adeilad y llyfrgell gydag adeilad amswyddogaethol newydd fydd â chaffi a chlwb ar ôl ysgol (58%)
- Adnewyddu offer chwarae a gwella mynediad at Ardal Chwarae Grange Avenue ac ardal chwarae Twyn-yr-Odyn (49%)
- Cynnal projectau bywyd gwyllt amrywiol (43%)



- Siop goffi'r pentref (42%)
- Gosod ardal gemau aml-ddefnydd i'r ysgol a'r gymuned. (42%)

Nodwyd y projectau canlynol yn rhai â **blaenoriaeth ganolig**, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn datgan blaenoriaeth isel, blaenoriaeth ganolig neu flaenoriaeth uchel. Nid oedd gan bob un o'r projectau hyn sgôr uchel dan y categorïau isaf neu uchaf. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth gydag 1 yn golygu'r mwyaf poblogaidd o'r projectau â blaenoriaeth canolig.

1. Cwblhau'r rhan o'r ffordd sydd heb oleuadau stryd ar Walston Road rhwng Orchard Close a Wenvoe Close
2. Gosod palmant ar Old Port Road, rhwng Rectory Road a'r Hen Reithordy
3. Gwella cyfleusterau draenio ger cyffordd Walston Road ag Orchard Close a Walston Road a Pound Lane
4. Cynnal gwelliannau i'r briffordd (gan gynnwys cyrbiau isel a gwaith trwsio cyffredinol) yng Ngwefnô a Thyn-yr-Odyn
5. Tir claddu – angen ardal newydd i'r dyfodol
6. Gosod palmant yn y dallbwynt gyferbyn â rhif 32 Walston Road.

Cafodd y projectau hyn eu categoreiddio fel rhai â **blaenoriaeth isel**, gyda dros 40% o ymatebwyr yn nodi mai'r rhain oedd â blaenoriaeth isel neu isaf:

- Gosod gwair-goncrid i alluogi cerbydau i yrru dros y llain laswellt ar Rectory Close (67%)
- Gosod toposgop, arwydd â gwybodaeth leol a chelf gyhoeddus. (62%)
- Gosod parcio llain galed ar y llain laswellt rhwng Sport Road a'r Cae Chwarae, Station Road East (59%)
- Gosod campfa awyr agored ar Gae Chwarae Station Road. (56%)
- Cynnig rhwydwaith beicio oddi ar y ffordd i'r datblygiadau newydd. (52%)

### **Syniadau eraill**

Gofynnwyd i ymatebwyr ateb cwestiwn agored ynglŷn â syniadau eraill ar gyfer gwasanaethau newydd. Derbyniwyd yr awgrymiadau canlynol:

- cydweithfa fwyd a redir gan wirfoddolwyr lleol
- datblygu llwybrau marchogaeth addas oddi wrth y ceir
- arwyddion gwell ar gyfer hawliau tramwy gyhoeddus
- ardaloedd parcio oddi ar y ffordd ar gyfer faniau neu ail / drydydd ceir, gwell parcio ger yr ysgol
- gardd gymunedol
- peiriant codi arian
- celf gyhoeddus fydd yr holl gymuned ynghlwm wrth ei datblygu
- annog mwy o gyfleusterau dysgu i oedolion yn y neuadd bentref / canolfan gymunedol
- ardal ymarfer corff i gŵn.

Bu i gyfanswm o 38 o ymatebwyr adael eu manylion cyswllt.

### 3.3 Sesiynau galw heibio

#### 3.3.1 SIOE BENTREF GWENFÔ

Bu i Dîm Cymunedau Gwledig Creadigol a Chyngor Cymuned Gwenfô gynnal sesiwn galw heibio mapio cymunedol yn Sioe Bentref Gwenfô ddydd Sadwrn 17 Medi 2016.



Gwnaeth oddeutu 85 o bobl gymryd rhan yn yr ymarferion canlynol:

#### 1. Mapio ble roeddent yn byw

- a. Gofynnwyd i gyfranogwyr nodi ble yn ward Gwenfô yr oeddent yn byw, ac roedd y rhan fwyaf o bobl yn byw yn y pentref ei hun a 6 o bobl yn dod o bentrefi eraill cyfagos.

#### 2. Pleidleisio dros flaenoriaethau cymunedol - rhoddwyd £1200 i bob gyfranogwr i'w ddyrannu (12 x £100) i 12 project. Gallent un ai rhoi eu harian ar un project neu ei ddyrannu i nifer o brojectau'n dibynnu ar beth oedd y blaenoriaethau. Ymhlith y prif brojectau oedd siop goffi, llyfrgell newydd ac adnewyddu offer chwarae a gwella mynediad ar Ardal Chwarae Grange Avenue ac ardal chwarae Twyn-yr-Odyn.

#### 3. Coeden Ddymuniadau - yn gofyn i gyfranogwyr am eu dyheadau ar gyfer dyfodol y pentref. Roedd nifer o syniadau / materion newydd a awgrymwyd gan gynnwys darparu meddygon, atal ceffylau rhag defnyddio'r llwybr cerdded a beicio a rennir a'r pwysigrwydd o gadw'r llyfrgell.

#### 4. Poster Adborth – rhoddwyd 3 phoster adborth mawr yn y ganolfan gymunedol ac roedd modd i gyfranogwyr roi sylwadau arnynt.

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:

- Beth rydych chi'n ei hoffi am Wenfô? Nododd y cyfranogwyr eu bod yn hoffi'r ymdeimlad o gymuned a'u cymdogion, a'r ystod o grwpiau cymunedol / gweithgareddau sydd ar gael.
- Pa wasanaethau / cyfleusterau fyddwch chi'n eu defnyddio yng Ngwenfô? Nododd y cyfranogwyr eu bod wedi defnyddio'r dafarn a'r siop yn ogystal â chyfleusterau megis y llyfrgell, yr eglwys a neuadd y pentref.
- Beth yw eich dyheadau ar gyfer y dyfodol? Nododd y cyfranogwyr yr hoffent weld trafndiaeth gyhoeddus gwell, tafarn sy'n cynnig bwyd da, atal ceffylau a marchogwyr rhag defnyddio'r llwybr beicio / cerdded a rennir ar Port Road.

Cafodd y rhain eu gadael yn y ganolfan gymunedol am ychydig wythnosau i gael rhagor o adborth.

### 3.3.2 YSGOL GYNRADD GWENFÔ

Mynychodd y Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol y Prynawn Coffi MacMillan ddydd Gwener 30 Medi 2016 i geisio adborth gan rieni. Bu i oddeutu 50 o breswylwyr gymryd rhan. Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a fynychodd yn byw yng Ngwenfô gyda phlant yn mynychu'r ysgol. Gwnaeth ychydig o neiniau a teidiau a'r ficer lleol fynychu. Cynhaliwyd ymarferion cyffelyb i'r rhai a gynhaliwyd yn y Sioe Bentref. Gofynnwyd i gyfranogwyr bleidleisio ar flaenoriaethau cymunedol.

Unwaith eto, y prif flaenoriaethau oedd adnewyddu'r offer chwarae a gwella mynediad at Ardal Chwarae Grange Avenue, siop goffi'r pentref, gosod ardal gemau aml-ddefnydd i'r ysgol a'r gymuned a disodli'r llyfrgell gydag adeilad newydd aml-swyddogaeth.

Wrth drafod, nododd y cyfranogwyr y byddai adeilad cymunedol aml-swyddogaethol a fyddai'n bodloni anghenion pawb yn flaenoriaeth. Nododd llawer o bobl y byddai meddygfa'n fuddiol.

## 4. Prif Ganfyddiadau

O'r trafodaethau a chanlyniadau'r arolwg, roedd y rhan fwyaf o drigolion yn mwynhau byw yng Ngwenfô, yn teimlo bod ysbryd cymunedol da ac yn adnabod o leiaf 10 o gymdogion.

Roedd y rhan fwyaf yn mwynhau byw mewn ardal wledig a chael mynediad rhwydd at Gaerdydd, ond roeddent hefyd o'r farn y gellid gwella trafnidiaeth gyhoeddus.

O'r blaenoriaethau a adnabuwyd o ymgynghoriadau cymunedol eraill, dyma oedd y blaenoriaethau uchaf:

- Caffi pentref
- Cynnig llyfrgell newydd aml-swyddogaethol sy'n cynnwys caffi a chlwb ar ôl ysgol.
- Ardaloedd chwarae gwell ac ardal gemau aml-ddefnydd newydd.

Roedd syniadau gwelliannau eraill yn cynnwys meddygfa, llwybrau cerdded gwell, mwy o weithgareddau cymunedol a band eang gwell.